Pennaeth Economi a Chymuned
Head of Economy & Community
Sioned E. Williams

Gofynnwch am/Ask for:
☎(01766) 771 000
Busnes@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: **CJM/GH**
Eich Cyf / Your Ref:

11eg o Chwefror, 2020

Clerc,
Cyngor Cymuned/Tref/Dinas

Annwyl Glerc,

BREXIT – CYNGOR I DRIGOLION A BUSNESAU

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod am y gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael i drigolion a busnesau'r sir yng nghyd-destun Brexit. Mae'n bosib bydd hyn o ddefnydd i aelodau eich Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth neu gyfeirio pobl o'ch cymuned at y cyngor sydd ar gael.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ers 31 Ionawr, 2020. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd wedi bod yn paratoi dros y flwyddyn ddiwethaf i ddeall yr effaith tebygol ar ei wasanaethau, busnesau a chymunedau. Mae'r gwaith paratoi wedi cynnwys adnabod risgiau i lefelau staffio, risgiau i gyflenwadau nwyddau a'r newid posib mewn gofynion pobl leol drwy adael yr Undeb Ewropeaidd.

O ran darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, mae tudalen benodol ar wefan y Cyngor yn cyfeirio trigolion a busnesau lleol tuag at wybodaeth berthnasol ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ceir mynediad at y wybodaeth hyn drwy: www.gwynedd.llyw.cymru/brexit

Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i:

- Drigolion – er enghraifft gwybodaeth am deithio, bancio a gyrru o fewn yr UE;
- Dinasyddion yr UE na anwyd yn y DU – cyngor ynghylch gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE;
- Busnesau a sefydliadau – er enghraifft materion ariannol, hawliau yn y gweithle, sut mae cael rhif EORI er mwyn mewnforio ac allforio nwyddau;
- Sector Wirfoddol ac awdurdodau eraill - dolenni defnyddiol i wahanol sefydliadau.

Mae cymorth ar gael i ddinasyddion yr UE na anwyd yn y DU sy'n dymuno aros yma ar ôl Brexit. Er mwyn cofrestru i aros rhaid llenwi ffurflen electroneg a sganio pasbort. Gall unrhyw un ddefnyddio'r cyfrifiaduron cyhoeddus rhad ac am ddim yn llyfrgelloedd y sir i lenwi'r ffurflen ac mae sganiwr pasbort pwrpasol ar gael yn Siop Gwynedd Caernarfon. Penderfynwyd peidio codi tâl ar bobl sy'n byw yng Ngwynedd i ddefnyddio'r sganiwr ond bydd rhaid i drigolion o siroedd eraill dalu £14.

Os oes gan eich Cyngor Cymuned – neu unrhyw aelod o'r cyhoedd neu fusnes yn eich ardal – gwestiwn neu gais ynghylch effeithiau gadael yr UE ar wasanaethau Cyngor Gwynedd, mae croeso cynnes i chi gysylltu â'r adran berthnasol o'r awdurdod. Mae manylion cyswllt y Cyngor ar gael: www.gwynedd.llyw.cymru/cysylltu

Yn gywir,

Sioned E. Williams
Pennaeth Economi a Chymuned

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01766 771 000
www.gwynedd.llyw.cymru